Achlysur Ein Materion Cymunedol

19 Mehefin 2018

Cyn Ysgol Babanod Glynrhedynog

Datganiadau sylfaenol

***"Rydw i'n teimlo mod i'n rhan o'r gymuned"***

Nododd 100% o'r unigolion a gymerodd ran yn y gwerthusiad eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r datganiad uchod. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r ased o rwydweithiau cymdeithasol yng Nghwm Rhondda Fach Uchaf.

***"Rydw i'n gwybod sut i gael mynediad at y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnaf i ac fy nheulu"***

Roedd 78% o unigolion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Serch hynny, roedd 22% ddim yn cytuno neu'n anghytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad uchod. Felly, mae lle i archwilio sut mae cefnogaeth a gwasanaethau yn cael eu hyrwyddo mewn Parthau Cymunedol.

***"Rydw i'n teimlo bod modd i mi ddylanwadu a llywio beth fydd yr Hwb Cymunedol yn Ysgol Fabanod Glynrhedynog yn ei gynnig"***

Roedd yn gadarnhaol bod 89% o unigolion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r datganiad uchod. Mae hyn yn dangos bod aelodau o'r gymuned yn teimlo bod ganddyn nhw berchnogaeth a llais dros ddatblygiad yr hwb cymunedol.

***"Rydw i'n deall pa wasanaethau fydd ar gael yn yr Hwb Cymunedol yn Ysgol Babanod Glynrhedynog"***

Roedd 100% o unigolion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall pa wasanaethau fydd ar gael yn yr Hwb Cymunedol. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cynnal achlysuron ymgysylltu â'r gymuned i gadw sgwrs agored gyda'r gymuned.

Gwerthuso

Roedd **64%** o unigolion yn credu fod yr achlysur drwyddo draw yn ardderchog neu'n dda iawn. Mae hyn yn ganran gadarnhaol. Serch hynny, mae cyfle i archwilio gwahanol ddulliau o ymgysylltu â'r gymuned.

Cyn yr achlysur, roedd **12%** o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd ganddyn nhw unrhyw ddealltwriaeth; gwybodaeth; neu gysylltiadau/rhwydweithiau ynglŷn â datblygiad yr Hwb Cymunedol. Ar ôl y digwyddiad **nid oedd unrhyw un** yn teimlo hyn.

Prif Sylwadau

**Cadarnhaol**

- "Roedd yn dda clywed gan yr holl siaradwyr. Roedd eu hagwedd gadarnhaol yn adfywiol"
- "Roedd y gweithdai'n dda. Cawson ni drafodaethau da am anghenion y gymuned”
- "Roedd yn dda bod pawb wedi cael y cyfle i gyfrannu"
- "Roedd yr achlysur wedi cael ei amseru'n dda. Roedd yn braf gweld y lleoliad arfaethedig"
- "Noson dda iawn. Mae croeso i chi gysylltu â mi. Hoffwn roi ychydig o fy amser i gefnogi fy nghymuned"
- "Fe wnaeth pawb gymryd rhan ac roedd hyn yn deimlad gwefreiddiol"

**Heriau**

- "Doedd dim fersiynau hawdd i'w darllen o'r wybodaeth ar gael ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu"
- "Yn hwyr yn dechrau"
- "Sut cafodd ei hysbysebu? Doedd dim llawer o bobl leol yn bresennol"
- "Mae angen i siaradwyr ddefnyddio'r meicroffon gan nad oedd pawb yn gallu clywed yn iawn"

**Beth nesaf?**

- "Rhagor o gyfathrebu a gwybodaeth ar gael yn hawdd"
- "Sicrhau fod pawb yn dod at ei gilydd, yn llunio'r cynllun ac yn cydweithio i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cymuned"
- "Efallai ystyried cynnal cymhorthfa Cynghorydd/AS. Does dim angen ei chynnal yn fisol drwy'r amser ond cael rhai cyfleoedd i gael apwyntiadau"
- "Blwch Awgrymiadau. Blwch a ffurflenni ar gyfer gwirfoddoli. Rhestr o wirfoddolwyr sydd eu hangen er mwyn helpu gyda gweithgareddau"
- "Mae angen adeiladu pontydd rhwng sefydliadau cymunedol"
- "Rhagor o drigolion lleol i gymryd rhan, nid partneriaid gyda buddiannau breintiedig ac awdurdodau statudol yn unig"

**Pwy fynychodd?**

- Y Gymuned
- Yr Awdurdod Lleol
- Partneriaeth Fern
- Interlink
- Aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gofal Sylfaenol
- Rhoi Pobl yn Gyntaf
- Y Ffatri Gelf
- Cynghorwyr Lleol
- Aelodau o'r Clwb Ieuenctid
- Grass Roots